**Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Cyllid – 18 Tachwedd 2010**

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

## Amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011/12

## 1. Cefndir y cyflwyniad hwn o Amcangyfrifon

1.1 Hwn yw'r pedwerydd amcangyfrif o'r gyllideb i'w gyflwyno, fel sy'n ofynnol o dan baragraff 15 o Atodlen 1 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel y diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n datgan yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni fy swyddogaethau statudol (ar wahân i'm cyflog, fy Yswiriant Gwladol a'm costau pensiwn, sy'n dod yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru), ynghyd â chostau gweithredu Gwasanaeth Cyfeirio Cwynion Cymru, sy'n cael ei weithredu wedi iddo gael ei ddatblygu'n wreiddiol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn yn estyniad rhesymegol ar waith y Tîm Cynghori ar Gwynion a lansiwyd fis Ionawr 2010 a bydd y synergedd yn galluogi'r gwasanaeth newydd i gael ei gyflwyno mewn ffordd llawer mwy cost-effeithiol.

1.2 Wrth baratoi'r cyflwyniad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i gyngor Pwyllgor Archwilio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Pwyllgor hwnnw'n parhau i gael ei gadeirio'n annibynnol gan Laurie Pavelin CBE, FCA sydd â phrofiad helaeth o gyllido a chyfrifo yn y sector cyhoeddus, a gwybodaeth fanwl am y meysydd hyn. Mae'r Athro Margaret Griffiths yn parhau'n aelod annibynnol o'r Pwyllgor eleni. Mae ei gwybodaeth hi am system gyfreithiol Cymru a'i phrofiad cyffredinol o faterion cysylltiedig â gwaith yr Ombwdsmon yn ychwanegu dyfnder at y Pwyllgor Archwilio.

1.3 Er mwyn cryfhau rheolaeth fy swyddfa, ehangwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn 2009, ac ehangwyd yr aelodaeth annibynnol. Er ei fod yn parhau i ymgymryd â'i ddyletswyddau mewn perthynas â chydymffurfio, mae hefyd yn ystyried perfformiad yn erbyn y Cynllun Strategol tair blynedd a'r Cynllun Gweithredu blynyddol. Rwyf i'n credu bod y Pwyllgor Archwilio'n darparu sicrwydd sylweddol mewn perthynas â'm cyfrifoldebau i fel Swyddog Archwilio.

## 2. Sail y Cyflwyniad

2.1 Paratowyd y cyflwyniad hwn mewn cyfnod o ansicrwydd mawr. Mae effaith Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr 2010 wedi ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried gofynion gwariant fy swyddfa yn y dyfodol yn fanwl iawn. Rhagdybiaf y bydd y gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus yn arwain at gynnydd sylweddol mewn cwynion, wrth i'r pwysau ar wasanaethau ledled y sector cyhoeddus gynyddu. Hefyd, mae fy swyddfa o dan bwysau o gyfeiriadau eraill, fel y manylir isod. Fodd bynnag, rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'n afrealistig ceisio cyllid ar lefel uwch ac rwyf wedi datgan cyfres o fesurau er mwyn sicrhau bod y gwariant mewn gwir dermau'n cael ei ostwng.

2.2 Mae'r cyflwyniad hwn yn adeiladu ar yr wybodaeth yn y papur a gyflwynwyd fis Hydref 2010. Mae cyllideb y flwyddyn gyfredol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwella'r gwasanaeth ar gyfer Gwasanaeth Cyfeirio Cwynion Cymru a'r gwaith paratoi ar gyfer gweithredu'r newidiadau o ganlyniad i'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG. Bydd y Mesur hwn yn cael gwared â'r broses Adolygu Annibynnol, gan arwain at gynnydd yn nifer y cwynion i'w hystyried gan fy swyddfa.

2.3 Ceir gostyngiad o £261k ar gyllideb ariannol net eleni yn y cynigion sydd wedi'u datgan ar gyfer 2011/12. Mae cyllideb gymeradwy 2010/11 yn cynnwys costau cyfalaf unigryw i sefydlu Cwynion Cymru. Ni fydd angen y gwariant hwn yn 2011/12. Fodd bynnag, roedd cyllideb gymeradwy 2010/11 yn cynnwys costau rhedeg am chwe mis ar gyfer Cwynion Cymru ac ar gyfer trosglwyddo'r Adolygiad Annibynnol yn y GIG i'r swyddfa hon. Roedd manylion costau llawn y flwyddyn yn rhan o'r papur amcangyfrif a gyflwynwyd fis Hydref 2009. Nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r costau, fel maent wedi'u datgan yn y cyflwyniad

hwnnw. Felly, ceir gostyngiad gynhwysfawr o 6.37% o un flwyddyn i'r nesaf. Byddaf yn sicrhau bod costau'r gwasanaeth yn aros fel y cynigiwyd yn wreiddiol, drwy fonitro'r gyllideb yn ofalus iawn.

2.4 Y prif reswm dros ychwanegu'r ddau weithgarwch hyn i waith fy Swyddfa, ar wahân i'r synergedd amlwg, yw'r arbedion sylweddol fydd yn dilyn wrth gymharu â'r opsiynau eraill. Mewn perthynas â Chwynion Cymru, byddai wedi bod angen sefydliad newydd er mwyn gweithredu'r gwasanaeth, a fyddai yn ôl amcangyfrif Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gost flynyddol ychwanegol o £125k. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amcangyfrif y byddai parhau i weithredu proses Adolygiad Annibynnol y GIG wedi arwain at gostau blynyddol o £104k yn seiliedig ar brisiau 2007, ar ben y rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif hwn. Mae hwn yn arbediad ar y cyd o £229k y flwyddyn, sy'n cyfateb i £243k yn ôl prisiau heddiw. Dylid nodi y bydd costau cynyddol y Swyddfa hon yn arwain at ostyngiadau cyfatebol mewn cyllidebau eraill yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, neu gyrff a gyllidir drwy gyfrwng y Cynulliad, felly nid oes unrhyw gost ychwanegol gynhwysfawr wrth gyflawni'r gweithgareddau hyn.

2.5 Rwy'n cynnig cadw'r amcangyfrif refeniw ar gyfer 2011/12 ar y lefel a hysbyswyd y llynedd. Mae hyn yn golygu y bydd y Swyddfa hon yn amsugno'r cynnydd cysylltiedig â chwyddiant o 3% a ragdybir. Hefyd, er ei bod yn ofynnol i mi ddwyn cyllideb ar gyfer blwyddyn yn unig, rwy'n cynllunio ar sail cynnal y gyllideb ar y lefel hon ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol nesaf, gan arwain at wir arbedion o fwy na 9%, o gymharu â'r ffigyrau gwreiddiol. Rwy'n cynnig gostwng yr anghenion cyfalaf yn unol â'r gostyngiad i Gymru yn dilyn yr Adolygiad Gwariant Cyfansawdd. Canlyniad hyn fydd arbediad o £18k dros y tair blynedd.

2.6 Wrth ymgymryd â'i dyletswyddau, mae'r Swyddfa wedi gweithio bob amser er mwyn sicrhau cymaint o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ag y bo modd. Mae wedi sefydlu prosesau monitro a rheoli cyllideb effeithiol. Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, dim ond 5% o gostau gweithredu net y sefydliad oedd y costau gweinyddu (gweler Atodiad B), ac rwy'n disgwyl i'r gyfran hon ostwng yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, i alluogi i adnoddau gael eu canolbwyntio ar weithgareddau craidd fel ymchwilio i gwynion a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

2.7 Os oes modd dod o hyd i arbedion ychwanegol, yna bydd y swm a dynnir i lawr yn gostwng.

## 3. Cyflawniadau

3.1 **Gwasanaethau Presennol**

a) Ymatebion dros y ffôn

Mae’r newidiadau sydd wedi’u gweithredu’n dechrau cael effaith sylweddol ar brosesu cwynion. Mae’r cyswllt cyntaf â’r gwasanaeth, yn y rhan fwyaf o achosion, dros y ffôn. Gwelwyd rhagori’n sylweddol ar y targed o ateb 95% o’r galwadau o fewn 30 eiliad, gyda 99.5% o’r galwadau’n cael eu hateb o fewn yr amser hwnnw.

b) Asesiadau cychwynnol

Gwelwyd gwelliant sylweddol hefyd mewn rhoi gwybod i’r achwynwyr, o fewn 4 wythnos i dderbyn eu cwyn, os ymchwilir iddi ai peidio. Y llynedd, rhoddwyd gwybod i 67% o’r achwynwyr o fewn 4 wythnos ynghylch ymchwilio i’w cwyn ai peidio. Mae’r canran hwn wedi codi i 87% yn awr. Mae’r gwelliant hwn yn cael effaith sylweddol ar yr amseroedd prosesu cwynion cyffredinol. Mae fy swyddfa i wedi cau 930 o gwynion yn ystod y cyfnod hyd at Awst eleni, o gymharu â 760 yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

c) Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru: Cyfarwyddyd

Fis Ebrill 2010, cyhoeddwyd y Cyfarwyddyd ynghylch y Cod Ymddygiad i’r holl awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

d) Llythyrau blynyddol at y Cynghorau Sir/Bwrdeistref Sirol a’r Byrddau Iechyd

Fis Awst 2010, anfonwyd y llythyrau blynyddol cyntaf i awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru. Ynddynt cynhwysywyd manylion yr holl achosion yr ymchwiliwyd iddynt, gan sicrhau bod darparwyr gwasanaeth allweddol yn cael cyfle i ddefnyddio’r hyn a ddysgwyd oddi wrth y cwynion, i sicrhau’r gwelliannau gorau posibl i’r gwasanaeth.

e) Mae fy swyddfa i wedi cyhoeddi'r crynodeb cyntaf o'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn. Mae'r crynodeb wedi'i gyflwyno ar ffurf meysydd pwnc, yn cynnwys tai, cynllunio, iechyd, gofal cymdeithasol ac ati, fel ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio. Dyma'r cyflwyniad systematig cyntaf o ddarganfyddiadau fy swyddfa ac mae'n sicrhau bod mwy o bobl yn darllen crynodebau'r adroddiadau, a fyddai, heblaw am yr adroddiadau proffil uchel sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd, wedi'u cyfyngu'n bennaf i'r sefydliadau dan sylw a'r achwynwyr. Mae hyn yn galluogi sefydliadau i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac i dynnu sylw at batrymau unrhyw fethiannau.

3.2 **Gwasanaeth Cyfeirio Cwynion Cymru**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid fis Hydref 2009, cafodd y cynigion ar gyfer gwasanaeth cyfeirio eu datgan. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers hynny o ran gwneud y paratoadau angenrheidiol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth yn gynnar yn 2011.

a) Recriwtio

Gweithredwyd y broses recriwtio ac mae'r aelodau newydd o staff yn eu swyddi. Bydd y gwasanaeth ar gael drwy wefan newydd, ffôn a thrwy e-bost. Mae staff wrthi ar hyn o bryd yn datblygu'r bas data manwl sydd ei angen er mwyn gallu ymateb yn briodol i aelodau'r cyhoedd.

b) Gwefan

Gwnaed cynnydd hefyd gyda datblygu gwefan ar gyfer y gwasanaeth. Bydd hwn yn integreiddio â bas data Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a bydd yn cael ei ddarparu fel 'hunanwasanaeth' lle gall y defnyddwyr enwi'r corff maent angen cysylltu ag ef, derbyn yr wybodaeth gyswllt berthnasol ac, os ydynt yn dymuno, llenwi ffurflen gwyno ar-lein, a fydd yn mynd yn uniongyrchol i'r corff cyhoeddus dan sylw wedyn.

c) Gofod Swyddfa

Rydym wedi sicrhau prydles ar gyfer mwy o ofod swyddfa yn yr adeilad y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i leoli ynddo ar hyn o bryd, i roi lle i staff ychwanegol y gwasanaeth cyfeirio a'r cwynion

iechyd ychwanegol a fydd yn dod i'm swyddfa i yn dilyn cyflwyno'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau Iechyd.

3.3 **Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG yng Nghymru**

Wedi i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau Iechyd ac wedi diddymu proses yr Adolygiad Annibynnol, bydd achwynwyr yn parhau i allu sicrhau ystyriaeth annibynnol a gwrthrychol lawn i'w cwyn drwy gyfrwng fy swyddfa i os ydynt yn anfodlon â'r modd y mae'r gŵyn wedi cael sylw gan y corff Iechyd perthnasol. Fodd bynnag, bydd y dyblygu a'r gorgyffwrdd presennol yn cael ei ddileu, gan arwain at arbedion arwyddocaol yn gyffredinol. Cynhaliwyd trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y camau angenrheidiol i'w cymryd ar gyfer cyfnod trosglwyddo diddymiad yr adolygiad annibynnol. Mae'r ymchwilwyr ychwanegol, y bydd eu hangen i roi sylw i'r cynnydd a ddisgwylir mewn cwynion iechyd, wedi cael eu recriwtio ac mae'r paratoadau i gyd yn eu lle fel bod y gwasanaeth yn gallu bod yn weithredol cyn gynted ag y bydd y trefniadau terfynol yn eu lle.

## 4. Adroddiad blynyddol 2009/10

4.1 Yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2009/10, dywedais fod y flwyddyn yn un heriol ac adeiladol. Un elfen allweddol o'r flwyddyn oedd y gwaith craidd o ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac ymddygiad aelodau awdurdodau lleol. Er bod y flwyddyn hon, yn wahanol i bob blwyddyn ers sefydlu'r swyddfa, wedi gweld y nifer o gwynion y lefelu ar y cyfan, mae baich gwaith y swyddfa'n drwm o hyd oherwydd y cynnydd yn ystod y flwyddyn yn y cwynion am iechyd ac ymddygiad aelodau, sy'n fwy cymhleth i ymchwilio iddynt yn aml.

4.2 Y flwyddyn 20091/0 oedd y cyntaf o'n Cynllun Strategol tair blynedd, a ddatblygwyd i wella'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig, gan ystyried y pwysau ar y gwasanaeth ac adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd y cynllun yn rhagweld newid yn y ffordd rydym yn gweithio ag achwynwyr. Rydym wedi ad-drefnu'r gwasanaeth fel bod unigolion yn gallu cysylltu â ni dros y ffôn neu drwy e-bost, yn hytrach na gorfod llenwi ffurflen. Daeth ein Tîm Cynghori ar Gwynion i rym ym mis Ionawr 2010. Ein nod yw sicrhau bod y rhai sy'n galw'n gallu

gweld yn glir sut mae ein gwasanaeth yn gweithio a sut gallwn ni eu helpu. Os na allwn roi sylw i'r gŵyn, oherwydd ei bod y tu allan i'm awdurdodaeth, e.e. cwynion am yr heddlu, byddwn yn ceisio eu helpu i ddefnyddio'r corff priodol. Rydym hefyd wedi gwneud ein gwaith yn fwy effeithlon drwy ddefnyddio amrywiaeth o fesurau, yn cynnwys dwyn achosion llai cymhleth i ben drwy lythyr yn hytrach na gorfod llunio adroddiadau ymchwilio hirfaith. Rwy'n hynod falch o weld bod yr arwyddion cynnar yn dangos bod y newidiadau'n arwain at yr effaith a ddymunwyd. Yn gyffredinol, llwyddwyd i sicrhau cynnydd o 6% yn nifer yr achosion a gaewyd yn ystod y flwyddyn, o gymharu â 2008/09. Gan fod y newidiadau wedi'u cyflwyno yn y chwarter diwethaf, rwy'n disgwyl rhagor o welliant yn 2010/11.

4.3 Nodir cyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf yn fanylach yn yr adroddiad blynyddol statudol ar gyfer 2009/10. Cyflwynwyd copi o Adroddiad blynyddol 2009/10 ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 22 Mehefin 2010 (Cyf.Gen-LD8096). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

## 5. Cynllun Strategol Tair Blynedd

5.1 Y cyfnod dan ystyriaeth fydd blwyddyn derfynol y Cynllun Strategol Tair Blynedd a gyhoeddwyd fis Ebrill 2009. Cynhwysir dyfyniad o'r cynllun hwnnw fel Atodiad A. Yn ystod y flwyddyn weithredol sydd i ddod, bydd y Cynllun Strategol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i gynnwys blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2011/12.

5.2 Nodir manylion y costau yn erbyn y nodau strategol yn Atodiad B. Mae'r prif bwyslais o hyd ar y busnes craidd o ystyried ac ymchwilio i gwynion.

## 6. Adolygiad gwariant cynhwysfawr 2010

6.1 **Adolygu darpariaeth y gwasanaeth**

Mae swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n gorff statudol. Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Lluniwyd y Ddeddf honno i sefydlu'r swyddfa ac i ddiogelu annibyniaeth y Swyddfa ar y cyrff dan awdurdodaeth. Un elfen o'r diogelu hwnnw yw'r angen am sicrhau bod y Swyddfa'n derbyn cyllid digonol ar gyfer y gweithgareddau a gyflawnir ganddi. Mae'r Ddeddf yn datgan ei bod yn ofynnol i mi sicrhau bod y swyddfa'n parhau'n annibynnol a bod ganddi gyllid digonol i gyflawni ei rôl.

6.2 **Targedu'r rhai mewn angen**

Prif swyddogaeth y Swyddfa yw ymchwilio i gwynion am gamweinyddu oddi mewn i gyrff a gyllidir drwy gyfrwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd hefyd yn gorff dan awdurdodaeth. Hefyd, mae gennyf ddyletswydd i ystyried cwynion ynghylch mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol. Mae gwasanaethau'r Ombwdsmon yn cynnig cyfrwng gwrthrychol ac annibynnol i aelodau'r cyhoedd fynegi cwynion yn rhad ac am ddim, ac mae'n anelu at fod ar gael i bawb. Rwy'n parhau i roi pwyslais arbennig ar sicrhau bod fy ngwasanaeth ar gael yn hwylus i'w ddefnyddio gan bobl a fyddai'n wynebu anawsterau fel arall efallai. Rwy'n gwneud hyn drwy gyfrwng ystod o fesurau, yn cynnwys darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd yn ogystal â Chymraeg a Saesneg, galluogi pobl i gyflwyno cwynion dros y ffôn, drwy eiriolwyr neu drwy e-bost, cael staff i ymweld ag achwynwyr yn eu cartrefi eu hunain lle bo angen a chynnal cyswllt â grwpiau eirioli a sefydliadau cefnogi eraill.

6.3 **Lleihau costau**

Mae'r Swyddfa'n adolygu ei chostau a'i dulliau gweithredu'n gyson er mwyn sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei gyflwyno mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Cynhaliwyd adolygiad manwl o'r holl gostau er mwyn canfod arbedion i'w defnyddio i alluogi'r swyddfa i amsugno costau ychwanegol mewn perthynas â chwyddiant, y cynnydd mewn TAW ac unrhyw bwysau arall.

## 7. Cyfyngiadau cyllidebol

7.1 **Ffioedd Ymgynghorwyr Proffesiynol**

Y newid mwyaf arwyddocaol o ran pwysau ar wariant yw ffioedd yr ymgynghorwyr proffesiynol, yn enwedig mewn perthynas â materion gofal iechyd ac, yn achlysurol, gwasanaethau cymdeithasol, cynllunio a thai. Mae hyn oherwydd y cynydd yn y nifer o achosion cymhleth lle mae angen cyngor professiynol. Lle bo modd, defnyddir gwybodaeth arbenigol y staff yn y swyddfa, ond mae angen darparu cefnogaeth ychwanegol hefyd.

7.2 **Staff Dros Dro**

Mae penderfyniad wedi'i wneud i beidio â defnyddio unrhyw staff dros dro newydd. Yn y gorffennol, cafwyd staff i gymryd lle unigolion ar absenoldeb mamolaeth ac absenoldebau eraill drwy ddefnyddio cytundebau dros dro byr. Hefyd, mae staff dros dro wedi cael eu defnyddio i ddarparu cefnogaeth, yn enwedig pan fo'r gwasanaeth ar ei brysuraf.

7.3 **Cyfnewid staff**

Bydd adolygiad llawn cyn i unrhyw swydd wag gael ei llenwi. Dim ond pan fo aelod newydd o staff yn hanfodol er mwyn bodloni gofynion cyflwyno'r gwasanaeth y bydd swyddi'n cael eu llenwi.

7.4 **Pensiynau**

Mae gan y Swyddfa hon dri chynllun pensiwn sy'n effeithio ar ei chyllid.

a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae mwyafrif y staff yn aelodau o'r cynllun hwn. Dim ond y cynllun hwn all unrhyw weithwyr newydd ymuno ag ef. Ar wahân i dalu costau'r cyflogwr, nid oes unrhyw rwymedigaethau eraill.

b) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Y cynllun hwn sy'n cael yr effaith fwyaf ar y cyfrifon oherwydd mae'n rhaid dangos unrhyw warged neu ddiffyg ar y fantolen (Datganiad o Sefyllfa Ariannol) a bod yn atebol am unrhyw symudiadau blwyddyn-i-flwyddyn drwy'r Datganiad Cost Gweithredu. Gyda'r cyhoeddiad diweddar ynghylch y newid i'r ffordd y bydd y Cynnydd mewn Pensiynau'n cael ei gyfrif, bydd effaith ar y diffyg cyfredol o £850K. Fodd bynnag, ceir ffactorau eraill sy'n effeithio ar asedau ac atebolrwydd y cynllun ac nid oes gan y swyddfa hon unrhyw reolaeth drostynt. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu wrth i'r adolygiad actiwari tair blynedd gael ei gynnal. Ni fyddwn yn gwybod beth fydd cyfradd adolygedig cyfraniadau'r cyflogwyr o 1 Ebrill 2011 ymlaen nes i'r gyllideb ar gyfer 2011/12 gael ei phenderfynu.

c) Cyn-Ombwdsmyn a'r rhai dibynnol arnynt

Ceir dau gyn-ombwdsmon ac un perthynas dibynnol sy'n derbyn pensiwn yn uniongyrchol o'r Swyddfa hon. Unwaith eto, effeithir ar y pensiynau hynny

gan y newid yn y trefniadau ar gyfer Cynnydd mewn Pensiwn. Gan nad oes unrhyw fanylion ar gael am y dyddiadau pryd fydd y cynnydd yn dod i rym, nid oes modd penderfynu ar y gofynion yn y dyfodol ar gyfer 2011/12. Os na cheir unrhyw lwfans ar gyfer y cynnydd, yna bydd raid ei amsugno'n rhan o'r adnoddau presennol.

### 7.5 Cyfathrebu

Mae'r pwyslais, heblaw am rwymedigaethau statudol, ar sicrhau bod gwasanaethau'r Swyddfa ar gael i bawb sydd eu hangen ond, yn arbennig i'r rhai sy'n wynebu'r her fwyaf o ran mynediad.  Bydd cyllid yn cael ei dargedu'n ofalus er mwyn sicrhau bod mwy o ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymhlith y rhai sy'n dibynnu fwyaf ar wasanaethau cyhoeddus.

### 7.6 Costau teithio a chynhaliaeth

Mae'r costau teithio a chynhaliaeth wedi bod yn cael eu monitro'n fanwl erioed. Anogir y staff i ddefnyddio'r ffurf fwyaf priodol a chost-effeithiol o drafnidiaeth. Gwneir mwyafrif y trefniadau teithio a llety'n ganolog, er mwyn lleihau costau.

### 7.7 Costau swyddfa

Unwaith eto, nid oes unrhyw weithdrefnau rheoli yn eu lle er mwyn sicrhau bod gwariant o'r fath yn cael ei fonitro'n ofalus.

## 8. Amsugno cost

### 8.1 TAW

Ni chafwyd unrhyw gynnydd yn y gyllideb i wneud iawn am y gyfradd newydd o 20%. Roedd yr amcangyfrifon ar gyfer 2010/11 a ddarparwyd y llynedd yn rhagdybio cyfradd TAW o 17.5%.

### 8.2 Yswiriant Gwladol

Gwneir iawn yn rhannol am y gost ychwanegol o 1% o gynnydd yn Yswiriant Gwlad y cyflogwr gan y modd y mae'r gyfradd y mae'r Yswiriant Gwladol yn daladwy arni'n cynyddu. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd cost ychwanegol o £14k.

8.3 **Hicynnau cyflog**

Er bod rhai o'm staff wedi cyrraedd hicynnau uchaf eu graddfa, ceir eraill sydd â hawl i gynnydd fel rhan o'u cytundeb. Cynhwysir lwfans o 2% yn y gyllideb ar gyfer 2010/11. Amcangyfrifir mai'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer 2011/12 yw £50k.

8.4 **Cyfyngiadau chwyddiant**

Paratowyd y gyllideb ar sail y rhagdybiaeth y bydd y cyflogau'n aros ar lefelau'r flwyddyn gyfredol i bawb ond y rhai ar incwm isel. Mae costau'r adeilad wedi cael eu gostwng 9% o gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol.

## 9. Cytundebau Cydweithredol / Partneriaeth

9.1 **Cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth alluogi**

Er mwyn cynnal annibyniaeth y Swyddfa, ceir cyfyngiadau fel rhan o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ar gyfer llunio perthnasoedd cytundebol â chyrff dan awdurdodaeth. Fodd bynnag, ceir nifer o feysydd lle mae'r Swyddfa hon wedi llunio trefniadau cydweithredol / partneriaeth.

9.2 **Defnydd o Wasanaethau Adnoddau Dynol Swyddfa Archwilio Cymru**

Mae'r Swyddfa'n defnyddio gwasanaethau Adran Adnoddau Dynol Swyddfa Archwilio Cymru. Gan mai'r corff hwnnw yw Archwilydd Statudol y Swyddfa hon, mae'n rhaid i mi adrodd yn ôl ar y trefniant hwnnw yn y cyfrifon blynyddol. Mae'r trefniant yn fwy cost-effeithiol na datblygu darpariaeth fewnol.

9.3 **Cyngor proffesiynol drwy gyfrwng Swyddfa Ombwdsmon y Gwasanaethau Seneddol ac Iechyd**

Sicrheir cefnogaeth gan ymgynghorwyr, yn enwedig mewn perthynas â chwynion y gwasanaeth iechyd, gan Swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Seneddol ac Iechyd. Mae'r trefniant hwn wedi bod yn ei le ers i'r Swyddfa hon dderbyn cyfrifoldebau Ombwdsmon Gwasanaeth Iechyd Cymru. Adolygir y trefniant hwn o dro i dro.

9.4 **Cydweithrediad y System Gyfrifiadurol**

Mae'r system gyfrifiadurol a ddefnyddir yn y swyddfa hon yn seiliedig ar system a baratowyd yn wreiddiol ar gyfer Ombwdsmon yr Alban. Fe'i defnyddir ar hyn o bryd gan nifer o swyddfeydd Ombwdsmon eraill. Bu cydweithredu rhwng y defnyddwyr amrywiol er mwyn cyllido gwelliannau i'r meddalwedd trin cwynion ac i drafod anghenion datblygu'r dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn grŵp defnyddwyr meddalwedd trin cwynion. Mae'n fwriad i hyn barhau.

## 10. Cynaliadwyedd

10.1 Gan ein bod mewn adeilad wedi'i brydlesu, ceir cyfyngiadau o ran y mesurau y gallwn eu mabwysiadu ond gwneir pob ymdrech i ailgylchu, defnyddio cynhyrchion wedi'u hailgylchu, lleihau gwastraff a theithio, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle bo modd a lleihau defnydd o ynni.

## 11. Cyflwyno'r gyllideb

11.1 Nodir y manylion yn Atodiad C.

11.2 Daw'r wybodaeth ar gyfer 2009/10 o'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno.

11.3 Mae'r gyllideb wreiddiol ar gyfer 2010/11 fel y'i cymeradwywyd yn dilyn cyflwyniad y llynedd.

11.4 Seilir yr alldro tebygol ar yr asesiad diweddaraf o sefyllfa ariannol y flwyddyn gyfredol. Fel yn 2009/10, mae angen darparu amcangyfrif ategol yn unol â'r hyn a gyflwynwyd, er mwyn rhoi ystyriaeth i secondio Ymchwilydd i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Cynhwysir hyn yn y cais nesaf am amcangyfrif ategol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cais am gynyddu'r costau cyflog i dalu costau dyrchafiad yn y swyddfa i lenwi bwlch yn ystod secondiad. Gwneir iawn am y gost ychwanegol hon gan yr incwm ychwanegol a dderbyniwyd ac felly mae'r trefniant yn ddi-gost fwy neu lai.

11.5 **Gofynion ar gyfer 2011/12**

Mae hwn yn nodi'r gofyniad ar gyfer 2011/12 ar yr un lefel gyffredinol ag a nodwyd yng nghyflwyniad y llynedd. Ni welwyd unrhyw gynnydd ar gyfer chwyddiant nac ar gyfer y pwysau ychwanegol y cyfeiriwyd ato. Yn fy marn i, hwn yw'r lleiafswm a fydd yn ofynnol er mwyn i'r Swyddfa hon allu gweithredu yn 2011/12. Hefyd, bydd angen rheolaeth sylweddol ar yr adnoddau hynny yn erbyn y galwadau a fydd ar y gwasanaeth, yn fy marn i, o ganlyniad i'r cyfyngiadau ariannol a fydd yn berthnasol oddi mewn i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n cynrychioli gostyngiad mewn gofynion ariannol (er bod hynny o ganlyniad i ostyngiad yn y costau sefydlu yn rhannol) ar y flwyddyn gyfredol o £256k ynghyd â gostyniad o £5 yn y gofyniad cyfalaf yn unol â'r gostyniad yn y cyfran cyfalaf i Gymru yn dilyn yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Swyddfa hon yn amsugno'r gwir cynnydd o £115k sef codiad 3% chwyddiant ar y gofynion ariannol net adolygedig. Mae yna arbediad o £243K i'r Gronfa Gwariant Cynhwysfawr o ganlyniad i'r swyddfa hon gyflawni rôl Cwynion Cymru ac effaith diddymiad y broses Adolygiad Annibynnol fel rhan o'r Mesur Iechyd yn ymwneud â Gwneud Iawn.

**Peter Tyndall**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Tachwedd 2010**

**************************************************************************************

## Atodiadau

Atodiad A – Cynllun Strategol 2009/10 i 2011/12 (Detholiad)

Atodiad B – Amcanion Strategol 2008/09 i 2011/12

Atodiad C – Amcangyfrif Cyllideb 2011/12 – Costau Rheolaidd

Atodiad D – Rhagolwg Tair Blynedd

**Atodiad A**

# Cynllun Strategol: 2009/10 i 2011/12 (Detholiad)

**Ein gweledigaeth**

- Cyfrannu at ddatblygiad gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yng Nghymru drwy sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n parhau i werthfawrogi a dysgu drwy gwynion.

**Ein gwerthoedd**

- **Hygyrchedd** – bod yn agored gyda phawb o'n holl gymunedau a gweithio i sicrhau nad yw pobl sy'n cael anhawster defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu heithrio. Byddwn yn gwrtais, yn parchu pobl, yn gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus i gysylltu â ni, ac yn cysylltu ag achwynwyr yn y dull o'u dewis.

- **Rhagoriaeth** – bod yn broffesiynol ac awdurdodol ym mhopeth a wnawn a hyrwyddo rhagoriaeth yn y gwasanaethau yr ydym yn gweithio â hwy.

- **Dysgu** – credwn y dylem wella drwy ddysgu drwy ein profiadau ein hunan a dylem gynorthwyo eraill i ddysgu drwy'u profiadau hwythau.

- **Tegwch** – byddwn yn cadw'n hannibyniaeth ac yn gwneud penderfyniadau'n wrthrychol ar ôl ystyried y ffeithiau'n ofalus.

- **Effeithiolrwydd** – byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn defnyddio adnoddau i sicrhau'r gwerth gorau i goffrau'r wlad.

- **Bod yn gyflogwyr da** – byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd wedi'u symbylu.

**Ein Dibenion**

- I ystyried cwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus.

- I ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r cod ymddygiad.

- I gywiro pethau – ein nod yw rhoi pobl yn ôl yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na baent wedi dioddef anghyfiawnder, a gweithio i sicrhau'r canlyniad gorau posibl os oes anghyfiawnder wedi digwydd.

- I gydnabod a rhannu arferion da

- I weithio â chyrff cyhoeddus i sicrhau bod y gwersi sy'n deillio o'n hymchwiliadau'n cael eu dysgu

- I sicrhau gwelliant parhaus yn safonau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy gynorthwyo cyrff i wneud pethau'n gywir y tro cyntaf – byddwn yn gweithio i helpu darparwyr gwasanaethau i wella'u prosesau penderfynu cychwynnol.

**Atodiad B**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Amcanion Strategol: 2008/09 i 2011/12**

| **Amcanion a Nodau** | **2008/09 Gwir-ioneddol** | | **2009/10 Gwir-ioneddol** | | **2010/11 Amcan-gyfrif** | | **2011/12 Amcan-gyfrif** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Net £000 | % | Net £000 | % | Net £000 | % | Net £000 | % |
| Creu mwy o ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth er mwyn i bobl ddeall beth rydym yn ei wneud ac er mwyn i bawb sydd angen y gwasanaeth ei dderbyn a'i ddefnyddio | 243 | 8 | 270 | 8 | 337 | 9 | 357 | 9 |
| Cael prosesau trin cwynion o safon uchel yn eu lle, sy'n ystyried ac yn penderfynu ar gwynion yn drylwyr ond yn gymesur, ac yn cyfleu penderfyniadau yn glir | 2407 | 76 | 2650 | 77 | 2991 | 76 | 3156 | 76 |
| Gweithio gyda chyrff cyhoeddus yng Nghymru er mwyn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i'r gwersi y gellir eu dysgu o'r cwynion yr ydym yn ymchwilio iddynt | 337 | 11 | 363 | 10 | 433 | 11 | 457 | 11 |
| Dangos y defnyddir ein hadnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol | 152 | 5 | 168 | 5 | 175 | 4 | 183 | 4 |
| **Costau gweithredu net** | **3139** | **100** | **3451** | **100** | **3936** | **100** | **4153** | **100** |

**Noder**: Mae'r datganiad hwn yn cynnwys tâl a chostau cysylltiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sydd yn cael eu cwrdd yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

**Atodiad C**

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
## Amcangyfrif Cyllideb 2011/12 – Costau Rheolaidd

| | 2009/10 Gwirioneddol | 2010/11 Amcangyfrif | 2010/11 Alldro Tebygol | 2011/12 Amcangyfrif a gyflwynwyd Tachwedd 2009 | 2011/12 Amcangyfrif a gyflwynwyd yn awr |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 2235 | 2478 | 2514 | 2659 | 2688 |
| Adeilad | 252 | 369 | 324 | 360 | 337 |
| Systemau Cyfrifiadurol a Chefnogaeth | 67 | 117 | 111 | 105 | 105 |
| Costau swyddfa | 146 | 129 | 129 | 141 | 146 |
| Costau ymgynghorwyr | 315 | 260 | 309 | 285 | 300 |
| Cyfathrebu | 77 | 105 | 105 | 105 | 105 |
| Hyfforddi a recriwtio | 43 | 82 | 78 | 70 | 70 |
| Teithio a chynhaliaeth | 40 | 32 | 35 | 34 | 34 |
| Ffioedd archwilio | 20 | 17 | 20 | 17 | 20 |
| Dibrisiant | 109 | 177 | 177 | 177 | 148 |
| Cost cyfalaf | -35 | -15 | 0 | -15 | 0 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddu** | **3269** | **3751** | **3802** | **3938** | **3953** |
| Incwm | -9 | -6 | -42 | -6 | -6 |
| Cyfanswm y refeniw | 3260 | 3745 | 3760 | 3932 | 3947 |
| Gwariant cyfalaf | 41 | 463 | 463 | 20 | 15 |
| **CYFANSWM** | **3301** | **4208** | **4223** | **3952** | **3962** |
| **Taliadau anariannol** | | | | | |
| Dibrisiant a chael gwared ag asedau | -109 | -177 | -177 | -177 | -148 |
| Cost cyfalaf | -35 | 15 | 0 | 15 | 0 |
| Symudiadau dyledwyr / credydwyr | -1 | 70 | 70 | 70 | 25 |
| Trefniadau pensiwn | 40 | -36 | -36 | -36 | -50 |
| Symudiad darpariaethau | 79 | 20 | 20 | 20 | 50 |
| | -26 | -108 | -123 | -108 | -123 |
| **Gofyniad ariannol net** | **3275** | **4100** | **4100** | **3844** | **3839** |

Noder: Yn weithredol o'r flwyddyn ariannol 2010/11, nid yw bellach yn angenrheidiol i ddangos cost cyfalaf blynyddol. Mae'r ffigurau uchod yn adlewyrchu'r newid hwnnw.

**Atodiad D**

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
## Rhagolwg Tair Blynedd

| | Amcangyfrif 2011/12 | Cynnig 2012/13 | Cynnig 2013/14 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 2688 | 2728 | 2755 |
| Adeilad | 337 | 337 | 337 |
| Systemau Cyfrifiadurol a Chefnogaeth | 105 | 89 | 72 |
| Costau swyddfa | 146 | 140 | 138 |
| Costau ymgynghorwyr | 300 | 282 | 282 |
| Cyfathrebu | 105 | 100 | 94 |
| Hyfforddi a recriwtio | 70 | 70 | 65 |
| Teithio a chynhaliaeth | 34 | 34 | 32 |
| Ffioedd archwilio | 20 | 20 | 20 |
| Dibrisiant | 148 | 153 | 158 |
| Cyfanswm y costau gweinyddu | 3953 | 3953 | 3953 |
| Incwm | -6 | -6 | -6 |
| Cyfanswm y refeniw | 3947 | 3947 | 3947 |
| Gwariant cyfalaf | 15 | 14 | 13 |
| CYFANSWM | 3962 | 3961 | 3960 |
| **Taliadau anariannol** | | | |
| Dibrisiant a chael gwared ag asedau | -148 | -153 | -158 |
| Symudiadau dyledwyr / credydwyr | 25 | 30 | 15 |
| Trefniadau pensiwn | -50 | -50 | -20 |
| Symudiad darpariaethau | 50 | 50 | 40 |
| | -123 | -123 | -123 |
| **Gofyniad ariannol net** | **3839** | **3838** | **3837** |